# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

**COFNODION**
**GORFFENNAF 2025**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 16eg Gorffennaf, 2025 |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | Canolfan Cae'r Gors, Rhosgadfan |

**PRESENOLDEB**

| ENW | Cyf. | SWYDDOGAETH | PRESENNOL/ABSENNOL/ YMDDIHEURO |
|---|---|---|---|
| Dyfan Thomas | DT | Cadeirydd | Presennol |
| Gwilym V Thomas | GVT | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Michelle Williams | MS | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Arwyn Roberts | AR | Cynghorydd Ward Tryfan | Presennol |
| Huw Rowlands | HR | Cynghorydd Ward Llanwnda | Presennol |
| Bethan Williams | BCW | Clerc (cofnodi) | Presennol |
| Nia Gruffydd | NG | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Jason Hunt | JH | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Adam S Roberts | ASR | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Gwilym Ll Williams | GLW | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Tom Ellis | TE | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Mark Gahan | | Swyddog | Presennol |
| Nerys Evans | NE | Aelod o'r Cyngor | Ymddiheuro |
| Aeron M.Jones | AMJ | Aelod o'r Cyngor | |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **CROESO A DATGANIADAU BUDDIANT**<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.<br>Yn ychwanegol i'r rhestr datgniadau buddiannau blynyddol, nodwyd fod sawl datganiad wedi'i nodi o dan yr eitem ceisiadau nawdd isod (eitem 7) | |
| 2. | **Diweddariad gan AR**<br>Rhoddwyd diweddariad ar gynlluniau sydd ar waith gan AR.<br><br>Gwyl Kate Roberts<br>Bydd yr wyl yn digwydd ar benwythnos 19-21 o Fedi, fydd yn cynnwys taith gerdded; digwyddiadau i'r plant yn Cae'r Gors; Gweithgareddau yn y Clwb gyda gwesteion yn ymweld; bydd drama Kate Roberts gan gwmni Mewn Cymeriad yn digwydd yn ysgol Rhostryfan. Bydd yr holl ddigwyddiadau am ddim oni bai am ddrama Mewn Cymeriad.<br><br>Arwyddion ar gyfer y gridiau gwartheg<br>Gobeithio y byddant yn cael eu gosod yn ystod yr haf<br><br>Problemau gor-yrru a parcio ger Aberalaw, Rhosgadfan<br>Nodwyd fod llawer iawn o gwynion ynglyn a'r ardal, gan nodi fod Aberalaw bellach yn cynnig AirBnB, a bod llawer mwy o geir angen parcio ar y safle, sydd yn ei gwneud yn anodd ar gyfer defnyddwyr eraill y ffordd. Mae hefyd cwynion am or-yrru yn yr ardal. Deiseb ynglyn a'r problemau wedi mynd i Gyngor Gwynedd.<br><br>Cwn peryglus<br>Adroddwyd fod problemau wedi codi ynglyn a chwn peryglus yn Rhosgadfan. Mae un ci a'i berchennog yn creu problem ddwys, ac mae'r heddlu yn ymwybodol. Mae'r ci'n fygythiol, a teimlir nad oes gan y perchennog reolaeth lawn drosto mewn llefydd cyhoeddus. Mae AR wedi | |

| | | |
|---|---|---|
| | cael cyfarfodydd gyda'r heddlu a gyda'r landlordiaid, ond nid oes modd iddynt fynd mewn i'r ty i asesu'r broblem yn llawn.<br>Roedd achos arall, gyda chwn gwahanol, lle'roedd y perchennog wedi gollwng y cwn mewn camgymeriad.<br>Sefyllfa yn cael ei hadolygu'n barhaus. | |
| 3. | **Ymweliad Mark Gahan**<br>Croesawyd Mark Gahan, Swyddog Cefnogi Cymunedau o Adran Economi Cyngor Gwynedd, i'r cyfarfod.<br>Amlinellodd y cymorth sydd ar gael i gynghorau Cymuned, yn arbennig felly Cronfa Llwyddo'n Lleol.<br>Holodd NG os oes unrhyw siawns i gael amlinelliad o'r cynlluniau fydd ar y gweill dros y flwyddyn, gan ei bod yn teimlo fod y cylch grant cyfredol yn dynn o ran amser. Awgrymodd MG y dylai'r CC greu rhestr arfaethedig o brosiectau yr hoffen nhw'u datblygu, ac yna unwaith y mae'r grantiau yn dod drwodd, yn danfon ceisiadau i fewn. Mae'r grantiau yn dueddol o gael eu cyhoeddi yn hwyr yn y dydd, ac felly yn ei gwneud yn anodd i Gyngor Gwynedd gynllunio.<br><br>Awgrymwyd fod llesiant yn flaenoriaeth, ac y dylai'r CC ystyried hyn wrth feddwl am geisiadau yn y dyfodol.<br><br>Holwyd os ydy costau staffio yn gymwys ai peidio, a nododd Mark eu bod os nad ydy unigolion eisoes yn gyfrifol am y gwaith.<br><br>Diolchwyd iddo am ei gyflwyniad. | |
| 4. | **Cymeradwyaeth is-gadeiryddiaeth**<br>Cymeradwywyd ASD yn is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn gyfredol. | |
| | **PWYNT GWEITHREDU: Cymeradwywyd ASR fel is-gadeirydd ar gyfer 2025-26.** | |
| 5. | **Cofnodion Cyfarfod 18.06.25**<br>Cyflwynwyd y cofnodion diweddara, ac fe'u cymeradwywyd yn unfrydol. | |
| 6. | **Pwyntiau Gweithredu**<br>Cyflwynwyd y Pwyntiau Gweithredu diweddara, a nodwyd fod y rhan fwyaf o'r pwyntiau eisoes wedi'u cwblhau. Diweddariadau i'w cael yn y gofrestr pwyntiau gweithredu ynghlwm.<br><br>Pennaeth Priffyrdd – angen eglurhad o be sy'n digwydd o ran torri gwrychoedd ar lonydd gwledig. Hefyd tyllau ffordd, gwastraffu arian ac adnoddau yn patchio yn hytrach na thrwsio darnau mwy o'r ffyrdd. | |
| 7. | **Materion Ariannol** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfri Cadw: | £51,283.53 |
| | Cyfri Siec: | £22,297.42 |
| | Anfonebau/Taliadau: | |
| | Sieciau: | |
| | Cyflog/costau clerc Mehefin (£633.36) | 771.43 |
| | Amlenni (£6.99) | |
| | Stampiau x 2(£60.68) | |
| | Inc (£70.40) | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Hughes-Jones Dyson – *payroll* blynyddol<br>Tanysgrifiad trwyddedau MS d/o Dyfan Thomas<br>Wyn Williams<br><br>Taliadau ar-lein:<br>NEST – pensiwn misol<br>NEST – pensiwn – ôl-daliad (Ebrill&Mai)<br>HSBC – ffioedd banc<br><br>Incwm:<br>HSBC – llog banc<br>HMRC – ad-daliad TAW x 2 | 264.00<br>12.10<br>2494.00<br><br><br>20.02<br>40.04<br>5.80<br><br><br>198.20<br>2150.87<br>2441.57 |

8. **Ceisiadau Nawdd 2025**

Trafodwyd geisiadau nawdd a ddaeth i law, a phenderfynwyd ar y canlynol:

a) Lleu - £500
b) Cylch Meithrin Rhostryfan – ASR/HR datgan diddordeb - £1500
c) Clwb Rygbi Caernarfon – angen mwy o fanylion
d) Cylch Meithrin Llanwnda - £1500
e) Neuadd Llanwnda – NG datgan diddordeb - £1500
f) CAFC/RWAS Caernarfon - £500
g) Clwb Peldroed Mountain Rangers – ASR datgan diddordeb - £1500
h) Clwb henoed Bro Llanwnda – dim am roi gan fod Henoed Felinwnda eisoes yn derbyn
i) Ysgol Rhostryfan - £1500
j) Henoed Felinwnda – HR yn cyflwyno'r cais heddiw – angen mantolen erbyn mis Medi.

Holwyd ynglyn a'r broses o geisio am arian ar gyfer talu am ddwy giat ar y comin, drwy Uwchgwyrfai, a nodwyd y bydd angen i swyddogion Uwchgwyrfai wneud cais yn y rowndiau nawdd nesaf, fydd yn digwydd ym mis Chwefror 2026.

9. **Is-bwyllgorau – Pwyllgor Staffio**

Penodi Clerc

Adroddiad gan Gadeirydd is-bwyllgor staffio yn dilyn cyfweliad ar gyfer swydd clerc ar y 9fed o Orffennaf.

Un ymgeisydd cryf iawn, gyda geirda cadarnhaol iawn. Cyfweld ar y 9fed o Orffennaf. Falch iawn o ddweud fod Avril Marie Evans wedi cael cynnig ac wedi derbyn y swydd.

Mae hi yn gweithio i Gyngor Gwynedd, fel uwch archwiliwr, ac felly'n hen gyfarwydd efo prosesau ariannol. Yn eitha profiadol, a'r wybodaeth genfdir ganddi. Yn drysorydd cylch meithrin ac yn weithgar iawn. Roedd peth gonsyrn o ran yr oriau gwaith, gan ei bod eisoes yn gweithio'n llawn amser, ond fe'n sicrhawyd y byddai hynny ddim problem, a'i bod yn berson trefnus ac yn gallu ymdopi gyda'r gwaith yn briodol.

Bydd yn dechrau'r swydd ar y 1af o Fedi, gyda chwe mis o gyfnod prawf. Bydd cyfle i arolygu a monitoro.

Bydd BCW yn aros ymlaen ar gyfer handover Medi a Hydref.

10 **Manylion tendrau Llanwnda**

Adroddiad gan y Cadeirydd mewn perthynas a gwobrwyo tendrau ar gyfer y cyfnod 2025-2028.

*Cofnodion is-bwyllgorau tendro llwybrau/cysgodfannau/mynwent 04.07.25*

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd i Wyn Williams gerdded y llwybrau efo Steff. A chytunwyd os y byddai unrhyw waith brys angen ei wneud y byddai Wyn yn fodlon gwneud y gwaith. | |
| 11 | **Materion i'w trafod**<br>• Biniau halen – aelodau wedi derbyn rhestr o'r lleoliadau, angen penderfyniad<br>• Cais grant Cyfraniad Ni Gynghorau Tref a Chymuned Gwynedd – clerc wedi cwblhau ffurflen gais am grant i geisio cael gwell cynlluniau o lwybrau'r gymuned ar y wefan.<br>• Diweddariad Lein Bryngwyn – perchennog tir sy'n ffinio gyda Lein Bryngwyn, wedi cytuno i wneud gwaith ffensio angenrheidiol, ac i'r cyngor gyfrannu hanner y costau. | |
| 12 | **Mynwent Cefnfaes**<br>GLW wedi torri'r darn newydd yn y fynwent ddwy waith yn wirfoddol.<br><br>Lwfansau – trafodwyd lwfansau aelodau, ond cytunwyd nad oedd yr aelodau am dderbyn y lwfans eleni, ac efallai y bydd angen trafodaeth bellach maes o law. | |
| 13 | **Adolygiad o bolisiau'r cyngor**<br>Yn dilyn argymhellion yr archwilwyr mewnol, mae'n ofynnol i'r cyngor adolygu'r polisiau isod:<br>[*aelodau eisoes wedi derbyn copiau o'r polisiau drwy ebost ar y 4ydd o Orffennaf]*<br>Adolygwyd y polisiau a'r rheolau isod, a chafwyd mân newidiadau i'r naratif, copiau yn amgaeedig.<br>Rheolau Ariannol<br>Rheolau Sefydlog<br>Cofrestr Risg<br>Polisi Iaith<br>Cofrestr Asedau | |
| 14 | **PWYNT GWEITHREDU: BCW i addasu'r geiriad yn y polisiau Rheolau Ariannol, Rheolau Sefydlog, Cofrestr Asedau, Polisi Iaith a'r Gofrestr Risg** | **BCW** |
| 15 | **Materion Cynllunio**<br>Minffordd Terrace – dim gwrthwynebiad<br>Roedd aelodau'n ei ffendio hi'n anodd rhoi sylwadau heb y wybodaeth gefndirol angenrheidiol. Holwyd tybed oes modd i swyddog cynllunio ddod fewn i gyfarfod er mwyn cael gwell dealltwriaeth o be ddisgwylid gan y cyngor Cymuned. | |
| | **PWYNT GWEITHREDU: BCW i wahodd swyddog o'r Adran Gynllunio i fewn i'r cyfarfod nesaf.** | **BCW** |
| 16 | **Adroddiadau Cynghorwyr Sir**<br>Huw Rowlands<br>Adroddwyd fod sawl cwyn wedi dod am y Goat, Llanwnda, gan gynnwys tor-cynllunio, cerbydau byrger, sbwriel ac yn y blaen, heb gael caniatad i adeiladu sied ac ati. Cyngor Gwynedd wedi cynnal archwiliad. Cyngor Cymuned yn nodi fod nifer o gwynion yn lleol am ymddygiad, a bod angen sylw i'r mater ar fyrder oherwydd ei fod yn effeithio ar gymaint o bobl. | |
| | **PWYNT GWEITHREDU: BCW i gysylltu efo Cyngor Gwynedd i gael diweddariad.** | **BCW** |
| 17<br><br>18 | **Unrhyw fater arall a materion mis nesaf**<br><br>Adroddodd HR ei fod wedi mynychu cwrs 'cyngor fel cyflogwr' yn ddiweddar, ac roedd wedi'i weld yn ddefnyddiol iawn. Bydd yn rhannu'r sleidiau unwaith y bydd wedi'u derbyn. | |


Clerc: Bethan Williams Ffôn: 07786 900388 E-bost: Clerc@ccllanwnda.cymru

| | | |
|---|---|---|
| 19 | Materion Eraill<br>Polisi tai yn Llanrug – pobl leol yn unig?<br><br>GLW – Glanrafon, Rhos Isaf – grid dwr, cyngor yn dod yno llnau y grid a thaflu'r sbwriel i'r gongl. Glanhau gulleys, ddim yn ei llnau'n iawn. Angen cario stwff o'na.<br><br>NG – llwybr rhif 9, Parc i Plas. Coed dros y llwybr. Rhwystro mynediad. Gofyn i swyddog llwybrau fynd yno.<br><br>NG – er gwybodaeth – uned cyfeirio newydd yn Ysgol Felinwnda. Dau gyfarfod efo'r Adran Addysg, cyfarfodydd adeiladol. Awyddus i feithrin perthynas a'r ysgol a'r gymuned, fel bo'r bobl ifanc yno yn cael eu cynnwys a'u croesawu. Pryderon – mynediad yn cael ei rannu – asesiad risg o ran parcio. Gwneud cais i agor adwy arall. Am gael ymgynghorydd i weld os ydy'r maes parcio yn addas. Eisiau sefydlu bwrdd rheoli.<br><br>Cytunwyd i ddanfon cerdyn cydymdeimlad at gyn aelod o'r cyngor oedd wedi colli ei fab yn ddiweddar.<br><br>TE – parcio yn Llanwnda – darn o Lon Eifion. Andrew Gregson, oes datrysiad? Oes modd rhoi arwyddion i fyny. | |
| 20 | **PWYNT GWEITHREDU: gofyn wrth swyddog llwybrau ymweld a llwybr rhif 9** | BCW |
| 21 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Medi 17, 2025 | |